NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Uwchsain dwysedd uchel wedi'i ffocysu ar gyfer fibroadenoma y fron symptomatig

13 Medi 2017

Nid oes unrhyw bryderon difrifol ynghylch pa mor ddiogel yw'r driniaeth hon, ond nid oes llawer o dystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae'n gweithio ar gyfer fibroadenoma y fron. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda y mae'n gweithio. Mae hyn oherwydd yr ansicrwydd ynghylch ei heffeithiau.

Cyflwr anfalaen (ddim yn ganseraidd) cyffredin iawn yn y fron, a'r symptom mwyaf cyffredin yw lwmp. Os bydd y lwmp yn mynd yn fawr neu'n boenus, gellir ei dynnu gan ddefnyddio llawdriniaeth draddodiadol neu lawdriniaeth twll clo. Mae uwchsain dwysedd uchel wedi'i ffocysu yn cynnwys tonnau sain amlder uchel sy'n cynhesu'r meinweoedd yn y lwmp. Y nod yw lleihau ei faint dros amser a'i ddinistrio'n llwyr o bosibl.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-2680-0

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights